Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 07.03.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cofrestru proffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae** |


**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

### Ymateb

**Cyflwyniad**

Ar y cyfan, mae Estyn o'r farn y bydd symud i broses o gofrestru proffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ddatblygiad cadarnhaol. Ar y cyfan, teimlwn fod rhanddeiliaid yn debygol o elwa o ddatblygu cofrestr ac y bydd effaith gadarnhaol ar gysondeb ar draws y sectorau, o ganlyniad. Mae hyn yn ei dro yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth i blant yn y ddau sector. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y dylid neilltuo cyfnod priodol pan fydd unigolion yn cael eu penodi i rolau o fewn y sectorau. Mae'n bwysig peidio â chynyddu'r pwysau ar y sectorau lle y mae recriwtio wedi bod yn broblem ers tro, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae sefydlu cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau wedi'i seilio'n gadarn ar sefydlu bod y gweithlu yn broffesiwn cydnabyddedig, sy'n cael ei barchu, sy'n cyflawni rôl bwysig iawn gyda'n plant ieuengaf.

Teimlwn fod sefydlu cofrestr yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y canlynol:
Mae'r gweithlu'n debygol o deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ystyried gyrfa mewn gofal plant a gwaith chwarae. Maent yn debygol o dderbyn ystod fwy cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol.
Mae teuluoedd a gofalwyr yn debygol o deimlo'n dawel eu meddwl bod darpariaeth fwy cyson ar draws y sectorau. Mae'r gweithlu'n debygol o gael ei ystyried yn ddiogel, wedi cymhwyso'n briodol ac yn gymwys.
Mae cyflogwyr yn debygol o deimlo'n dawel eu meddwl fod unigolion yn cyflawni gofynion a'u bod yn debygol o gadw at god ymddygiad y rôl.
Byddai cofrestrfa yn bwynt canolog ar gyfer cofnodi agweddau fel cymwysterau, cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), a hyfforddiant. Byddai hyn yn hwyluso'r broses o gynnal cofnodion a chynorthwyo wrth i staff symud rhwng lleoliadau.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gall agweddau ar y cynnig hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel cofrestru deuol. Mewn sector sy'n ei chael hi'n fwyfwy anodd recriwtio staff, os bydd angen i ymarferwyr dalu ffi i gofrestru ar fwy nag un gofrestr, rydym yn pryderu y bydd yn ei hannog i beidio â bod eisiau gweithio ar draws sectorau. Byddai'n ddefnyddiol datgan hefyd pa mor aml y byddai angen i ymarferwyr adnewyddu eu cofrestriad.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Bydd datblygu cofrestr y gweithlu i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cymryd amser. Bydd angen newid deddfwriaethol i gyflwyno'r gofyniad am gofrestr y gweithlu

a bydd adeiladu’r gofrestr ei hun a datblygu Cod Ymarfer a phrosesau Addasrwydd i Ymarfer yn gofyn am amserlen y tu hwnt i dymor hwn y Senedd. Byddai angen datblygu cofrestr ar y cyd â’r sector gofal plant a gwaith chwarae, yn benodol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol y sector fel partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru ac Awdurdodau Lleol. Byddai cyfleoedd pellach i ymgysylltu’n uniongyrchol â’r sector i lywio cofrestr y gweithlu ac ymgynghoriad pellach i geisio adborth ar fanylion arfaethedig unrhyw gofrestr yn y dyfodol, ond mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am rai cwestiynau elfennol er mwyn i ni bennu’r potensial am gofrestr y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru.

Amdanoch chi:

**Pa un o’r datganiadau canlynol sy’n eich disgrifio chi?**

A) Rwy'n aelod o sefydliad rhanddeiliaid neu'n gweithio i awdurdod lleol.

B) Rwy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

C) Rwy'n gwirfoddoli yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

D) Rwy'n rhiant neu'n ofalwr i blentyn o dan 12 oed.

E) Dim un o'r uchod x

F) Gwell gennyf beidio â dweud.

**Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich rôl orau?**

A) Rheolwr lleoliad

B) Gwarchodwr plant

C) Ymarferydd gofal plant

D) Ymarferydd gwaith chwarae

E) Nani / Au pair

F) Unigolyn cyfrifol / Person cofrestredig

G) Arall x

H) Gwell gennyf beidio â dweud

| 1. Byddai cofrestr o'r gweithlu yn cynnig manteision ar gyfer: | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae | | • | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae | | • | | | | |
| Teuluoedd sy'n defnyddio'r sector gofal plant a gwaith chwarae | | • | | | | |

Sut ydych chi'n meddwl y byddai cofrestr o fudd i'r grwpiau hyn? Esboniwch eich ateb.

Ar y cyfan, mae sefydlu cofrestr broffesiynol o’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn debygol o gynnig amrywiaeth o fuddion cadarnhaol i’r rhanddeiliaid hyn.

Mae **gweithwyr proffesiynol** sy’n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae yn debygol o elwa trwy fwy o ymdeimlad o hunaniaeth a bydd statws ychwanegol yn debygol o gael ei roi i’r rhai sy’n gweithio yn y sector pwysig hwn. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o gysondeb a disgwyliadau o ran cyfleoedd datblygiad proffesiynol o fewn y sector a chael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth i blant ar draws Cymru yn y tymor canol a’r tymor hir. Mae unigolion sy’n gweithio yn y sector yn debygol o deimlo mwy o falchder o weithio yn y sector a gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar unigolion sy’n penderfynu ar eu llwybr gyrfaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, neu mewn addysg bellach neu uwch. Mae’n debygol y bydd mwy o werth a chydnabyddiaeth yn cael eu rhoi ar y gweithlu yn y sector. Fodd bynnag, teimlwn ei bod hi’n bwysig amlygu buddion ymuno â chofrestr i’r unigolyn, er enghraifft trwy fod yn fwy eglur am y cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfaol.

Mae **cyflogwyr** sy’n gweithio o fewn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae yn debygol o gael sicrwydd bod disgwyl i bob gweithiwr gadw at god ymddygiad proffesiynol a bodloni gofynion penodol. Byddai cofrestrfa ganolog yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy’n ymwneud â gweithwyr proffesiynol o fewn y sectorau yn cael ei gasglu’n ganolog ac ar gael i gyflogwyr. Mae hyn yn debygol o sicrhau llif fwy effeithiol o wybodaeth pan fydd unigolion yn dechrau gweithio mewn lleoliad arall neu weithio ar draws nifer o leoliadau.

Mae **teuluoedd** â phlant sy’n manteisio ar y sector yn debygol o gael sicrwydd bod elfen ychwanegol o graffu proffesiynol a disgwyliadau’n cael eu gosod ar ddarparwyr o fewn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae. Mae cofrestru’n debygol o gynyddu hyder rhieni bod y gweithlu o fewn y sector yn broffesiynol ac wedi’u hyfforddi’n dda. Mae cofrestru’n debygol o godi statws y gweithlu o fewn y sectorau.

| 2. Dylai ymuno â chofrestr o'r gweithlu fod yn orfodol i'r rhai sy'n gymwys. | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • | | | | |

Esboniwch eich ateb.

Dylai cofrestru’r gweithlu fod yn orfodol i bob unigolyn cymwys oherwydd byddai hyn yn cynyddu cysondeb y disgwyliadau ar draws y gweithlu. Byddai angen i unigolion fodloni meini prawf penodol er mwyn cofrestru a chael eu talu i weithio gyda phlant o fewn y sectorau. Mae hyn yn debygol o sicrhau disgwyliadau cyson ar gyfer yr holl unigolion sy’n gweithio o fewn y sectorau yng Nghymru. Hefyd, mae’n

| |
|---|
| debygol o gynorthwyo arweinwyr a rheolwyr o fewn y sectorau a chodi proffil y gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio yn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae. |

| 3. DYLID cynnwys y canlynol mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | • | | | | |
| Yr holl staff mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | • | | | | |
| Yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | • | | | | |
| Sut ydych chi'n meddwl y byddai cofrestr o fudd i'r grwpiau hyn? Esboniwch eich ateb. | | | | | | |
| Mae cynnwys yr holl grwpiau sydd wedi’u hamlinellu uchod yn debygol o gynyddu cysondeb i weithwyr proffesiynol sy’n gweithio o fewn y sector a chefnogi asiantaethau sy’n gweithio ochr yn ochr â lleoliadau a gwasanaethau i ddatblygu’r gweithlu mewn ffordd fwy strategol ac effeithiol. Os nad yw unigolion wedi’u rhestru ar y gofrestr gofal plant a gwaith chwarae, ni fyddent yn gallu cael eu talu i weithio’n uniongyrchol gyda phlant o fewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig yng Nghymru. Ystyriwn fod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol. Nodwn fod cyfnod o saib yn cael ei awgrymu i unigolion newydd eu recriwtio gofrestru ar ôl i’w cyflogaeth ddechrau. Ystyriwn fod hyn yn agwedd bwysig gan fod niferoedd sylweddol o staff yn symud i ddechrau gweithio mewn lleoliadau gwahanol, neu’n symud o weithio mewn lleoliad a gynhelir i leoliad nas cynhelir, ac felly byddai angen iddynt gofrestru. | | | | | | |

| 4. NI ddylai'r canlynol gael eu cynnwys mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae heb eu cofrestru | | | • | | | |
| Gwirfoddolwyr | | • | | | | |
| Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant | | • | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Myfyrwyr sy'n gweithio'n wirfoddol mewn lleoliad gofal plant neu waith chwarae cofrestredig | | • | | | | |
| Staff, fel glanhawyr, sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig ond nad ydynt mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant | | • | | | | |
| Nanis | | • | | | | |

Esboniwch eich ateb.

Gall fod yn heriol sicrhau bod staff sy’n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae heb eu cofrestru wedi’u cynnwys ar y gofrestr. Fodd bynnag, teimlwn fod angen ystyried yr agwedd hon ymhellach. Er enghraifft, gall fod yn bosibl ymchwilio i gyfleoedd i staff sy’n gweithio gyda darparwyr o’r fath gael eu cynnwys ar y gofrestr yn wirfoddol. Byddai hyn yn cynnig y buddion ehangach sydd wedi’u hamlinellu uchod i unigolion sy’n gweithio yn y sector. Gan nad oes angen i leoliadau nad ydynt yn gweithredu am fwy na 2 awr y dydd nac am fwy na 6 diwrnod mewn blwyddyn galendr gofrestru gydag AGC o dan reoliadau presennol, gallai hyn fynd gam o’r ffordd tuag at gynnig mwy o sicrwydd a hyder i’r cyhoedd fod staff sy’n gweithio yn y lleoliadau hyn sydd heb gofrestru yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a’r cymeriad i ofalu am blant yn ddiogel ac yn effeithiol. Cytunwn na ddylai fod angen i wirfoddolwyr sy’n cynorthwyo mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig gofrestru. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae’r unigolion hyn yn aml yn cymryd rhan mewn lleoliadau fel rhan o’u cymhwyster neu eu profiad gwaith.

Fel mater o drefn, ni ddylai fod angen i fyfyrwyr gofrestru, ond cytunwn y dylai prentisiaid sy’n cael eu talu i weithio gyda phlant mewn lleoliadau o’r fath orfod cofrestru. Fodd bynnag, mae’r un pryderon am y ffi gofrestru a amlinellwyd uchod yn berthnasol. Ni ddylai fod angen i staff sy’n gweithio mewn lleoliad, ond nad ydynt yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant, orfod cofrestru. Ymddengys yn rhesymol nad oes angen o reidrwydd i Unigolion cyfrifol a Phersonau cyfrifol sy’n gweithio o fewn y sectorau ond nad ydynt yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant gofrestru. Nid yw’r safonau gofynnol cenedlaethol yn berthnasol i nanis ac maent yn cael eu monitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru trwy eu cynllun cymeradwyo darparwyr gofal plant gartref (Cymru) ac, felly, ni ddylent gael eu cynnwys ar y gofrestr.

| 5. A ddylai cofrestr gofal plant a gwaith chwarae gael ei sefydlu yng Nghymru? | Dylai | Na ddylai | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|
| | • | | |

Esboniwch eich ateb.

Rydym o’r farn bod datblygu cofrestr broffesiynol o’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae sefydlu cofrestr o’r fath yn debygol o gynyddu cysondeb y ddarpariaeth yn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae, a chodi proffil y rôl bwysig hon. Mae cam o’r fath yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sy’n ystyried gyrfa ym maes gofal plant a gwaith chwarae. Yn y tymor byr, mae’n ddoeth cael cyfnod o saib i unigolion newydd eu recriwtio gofrestru ar ôl i’w cyflogaeth ddechrau.

| |
|---|
| Mae cofrestru'n debygol o arwain at fwy o gysondeb, gyda chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Hefyd, mae'n debygol o godi proffil ac amgyffrediad y cyhoedd o bwysigrwydd y rôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol |

| 6. Pe bai cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cael ei datblygu, pryd ydych chi'n meddwl y dylai hyn ddigwydd? | Yn y tymor byr (datblygu'r gofrestr o fewn 2-3 blynedd) | Yn y tymor canolig (datblygu'r gofrestr o fewn 4-6 blynedd) | Yn y tymor hir (datblygu'r gofrestr o fewn 7-10 mlynedd) | Dim o gwbl | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|
| | • | | | | |
| Esboniwch eich ateb. | | | | | |
| Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae nifer o elfennau i'w hystyried trwy gydol y broses. Teimlwn fod datblygu'r gofrestr yn dilyn proses o ymgynghori gofalus yn briodol a'i bod yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y sectorau gofal plant a gwaith chwarae. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen ystyried effaith agweddau fel cofrestru deuol ar y sector yn fwy. Hefyd, rydym o'r farn bod angen ystyried yn ofalus amseru rhoi'r cynigion ar waith, o ystyried y pwysau ariannol a'r pwysau staffio ar y sector ar hyn o bryd. | | | | | |

| 7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn â datblygu cofrestr ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae? |
|---|
| Gallai fod yn fuddiol amlinellu ychydig yn fwy o fanylion i ymarferwyr am y cymorth y gellid ei ddarparu ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. |

Cwestiwn 8: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynnig ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Nodwn fod tystiolaeth anecdotaidd gan nifer o bartneriaid yn awgrymu bod recriwtio ymarferwyr Cymraeg eu hiaith yn bryder sylweddol o hyd yn y sector gofal plant. Gan fod nifer o ymarferwyr yn tueddu i symud rhwng lleoliadau ac ysgolion a gynhelir, mae'n bwysig nad yw'r angen i gofrestru yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol i ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector hwn. |

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu cynnig er mwyn sicrhau:

ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a

nad yw’n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: